



**Academiau Dysgu
Dwys Cymru**

Intensive Learning
Academies Wales

Bwrdd Partneriaeth
Ranbarthol Powys
Iechyd a Gofal
Cymdeithasol



Powys Regional
Partnership Board
Health and
Social Care

**University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru**

MSc Arwain Trawsnewid Digidol



MSc Arwain Trawsnewid Digidol

Ynglŷn â'r cwrs

Mae'r MSc mewn Arwain Trawsnewid Digidol yn gwrs dwy flynedd, rhan amser, sy'n anelu at ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau Arweinyddiaeth sydd eu hangen i yrru arloesi yn y maes trawsnewid digidol sy'n tyfu'n gyflym o fewn lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r MSc, a grëwyd gyda rhai o fyrddau lechyd Cymru, yn defnyddio'r arbenigedd sydd ar gael ledled y Brifysgol a'r sector i greu profiad dysgu rhyngddisgyblaethol, yn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, arweinyddiaeth a rheoli newid, a thechnolegau digidol.

Mae'r cwrs ynghylch cefnogi arweinwyr i herio arferion traddodiadol, i fod yn fwy chwilfrydig am brosesau, ac i gael 'meddylfryd digidol yn gyntaf' i ail-lunio a gwella eu sefydliad a'u gwasanaethau er budd eu defnyddwyr, rhanddeiliaid, a gweithwyr. Mae tri thrywydd pendant o astudiaeth yn sylfaen i hanfod trawsnewid digidol:

1. **Arweinyddiaeth**
2. **Technoleg Ddigidol**
3. **Arloesi a Newid**

Mae'r tri thrywydd pendant yma'n cyfuno'n rheolaidd drwy gydol y cwrs fel heriau ymarferol sy'n cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr archwilio eu sefydliadau eu hunain i ganfod meysydd a allai fanteisio ar ymyriadau gan dechnoleg ddigidol i wneud gwelliannau a chael effaith sylweddol.

Wedi'i anelu at bobl broffesiynol ar ddechrau neu ar ganol eu gyrfa, bydd pobl fydd yn dechrau ar y cwrs MSc yn dod o gefndiroedd amrywiol iawn, yn cynnwys arweinwyr a rheolwyr mewn meddygaeth glinigol, iechyd cyhoeddus, seicoleg a gofal cymdeithasol. Er y tybir nad oes gwybodaeth ganddynt eisoes, rhaid i ymgeiswyr bod mewn rôl rheoli ac arwain a cael diddordeb mewn defnyddio technoleg ddigidol i sefydlu a gwrthio newid gweddnewidiol o fewn eu sefydliad yn sgil eu swyddogaeth fel arweinwyr.

Amcanion y Cwrs

Amcan y cwrs yw rhoi'r sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r ymddygiadau proffesiynol i fyfyrwyr sydd eu hangen i arwain prosiectau trawsnewid digidol o fewn sefydliad. Yn benodol, bydd myfyrwyr yn dysgu sut i wneud y canlynol:

- Dod yn arweinyddion gyda gweledigaeth sy'n blaenoriaethu pobl a datblygu diwylliant o newid ble bydd atebion yn cael eu cyd-ddylunio mewn cydweithrediad â chleifion a staff iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwella ymwybyddiaeth o ddigido ledled y system iechyd a gofal cymdeithasol a'r ddealltwriaeth y gall atebion technoleg newydd ail-lunio'r gwasanaeth a chynorthwyo i gyfleu gofal o'r safon uchaf
- Creu ac ail-lunio galluoedd newydd gan ddefnyddio technoleg wrth ysbrydoli eraill i wneud yr un peth
- Deall rheoli newid ar gyfer eu datblygiad personol eu hunain ac i gyfrannu i'r newid ehangach yn y sefydliad
- Rhoi ymagwedd ystwyth tuag at ddigido ar waith sy'n optimeiddio datblygu atebion arloesol drwy brofi cyflym a phroses ddatblygu iterus
- Cymhwyso ymchwil i fod yn atebion gweithredol a chanlyniadau gwell i gleifion

Amlinellid o'r Cwrs

Bydd y cwrs hwn yn cynnwys wyth modiwl 20 credyd gorfodol, caiff ei gyfleu drwy gyfrwng blociau dysgu dwys byr o hyd at bedair awr ar-lein yr wythnos, ac yn cael eu cefnogi gan fwy o gyfnodau estynedig o ymchwilio a chymhwyso.

Mae pob modiwl yn canolbwyntio ar wahanol ffyrdd y gellir defnyddio atebion digidol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gofal iechyd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Modiwlau i ddilyn:





Mae pob modiwl yn canolbwyntio ar wahanol ffyrdd y gellir defnyddio atebion digidol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gofal iechyd yn yr unfed ganrif ar hugain.



1

Arwain Trawsnewid Digidol

Swyddogaeth yr arweinydd yn y cyd-destun hwn yw datblygu ffyrdd newydd o feddwl, ysbrydoli, symbylu a gwrthio newid trawsnewid ei flaen. Bydd y modiwl hwn yn datblygu eich sgiliau arweinyddiaeth a rhoi offer strategol i chi wneud hynny. Mae'r canlynol ymhlith y themâu yn y modiwl hwn.

- Sbardunau allweddol ar gyfer ymgysylltu a thrawsnewid digidol
- Arwain trosolwg newid trawsnewid
- Trosolwg o reoli newid
- Agweddau tuag at newid
- Hunanymwybyddiaeth
- Deallusrwydd emosiynol
- Ymwybyddiaeth Gymdeithasol a Diwylliannol
- Arwain, Rheoli a Dylanwad
- Arddulliau Arweinyddiaeth
- Astudiaethau achos o reoli newid oddi mewn ac oddi allan i'r sector

2 Archwilio Technoleg Ddigidol

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar elfennau allweddol gweithio'n ddigidol yn y Sector Iechyd a Gofal. Gan ddefnyddio enghreifftiau byd-eang, rydym yn archwilio deall diwylliant 'digidol', a meddylfryd 'digidol yn gyntaf'

- Archwilio diffiniadau eang o ddigidol, a chysyniadau allweddol
- Archwilio posibilrwydd digidol fel cysyniad
- Cyflwyniad i feysydd allweddol 'y rhyngwyd pethau'
- Archwilio technolegau a phosibiliadau amrywiol gan ddefnyddio astudiaethau achos priodol

3 Meddylfryd Dylunio

Mae'n ofynnol mai man cychwyn unrhyw drawsnewid yw anghenion defnyddwyr gwasanaethau a datrys yr heriau a'r problemau maent yn eu hwynebu. Bydd y modiwl hwn yn cynnwys y canlynol

- Archwilio'r cylch dylunio,
- Deall y broblem
- Dulliau ymchwil dylunio
- Cynhyrchu syniadau
- Mapio empathi a chyfweliadau ethnograffig
- Gwthio arloesi mewn ymateb i broblemau rhanddeiliaid allweddol –
- Pwyslais ar weithio fel tîm.

4 Arwain Timau Trawsnewid

Ni all yr arweinydd wneud y cyfan. Maen nhw angen tîm o arbenigwyr pwnc i ddatblygu a dylunio'r fenter gywir ac yna ei chyfleu. Mae'r modiwl yn cynnwys y canlynol

- Arweinyddiaeth a Rheoli o fewn Diwylliant Digidol
- Ymarfer a Phroses Agile
- Trawsnewid yr hunan/timau/diwylliant
- Rheoli Prosiectau o fewn cyd-destun digidol a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr





Wrth dyrchu'n ddyfnach i fyd technoleg rydym yn cymryd golwg fanwl ar y maes digidol yn ymarferol a chyfrinach yr hyn sy'n bosibl drwy gyfrwng.



5

Dylunio Profiad Defnyddiwr

Wrth archwilio modelau o osod eich hun yn sefyllfa eich defnyddwyr gwasanaeth rydym yn edrych ar y canlynol

- Dylunio Profiad Defnyddwyr (UX) – cysyniadau ac ymarfer
- Gwella profiad defnyddwyr drwy ddylunio – mewn ymateb i her allweddol gan grŵp y rhanddeiliaid.
- Astudiaethau achos o UX oddi mewn ac oddi allan i'r sector

6

Archwilio Technoleg Ddigidol 'rhan 2'

Wrth dyrchu'n ddyfnach i fyd technoleg rydym yn cymryd golwg fanwl ar y maes digidol yn ymarferol a chyfrinach yr hyn sy'n bosibl drwy gyfrwng y canlynol:

- Archwiliadau o themâu a thechnolegau digidol amrywiol a datblygiadau'r dyfodol
- Data Mawr, Dadansoddeg Data, Delweddu Data
- Deallusrwydd Artiffisial (AI)
- Diwydiant 4.0, Technoleg Symudol 5G, Seiber, Moeseg, Diogelu Data

7

Prosiect Trawsnewid Digidol Cymhwysol a gynigir

Yn y modiwl hwn sy'n seiliedig ar waith byddwch yn darganfod y gwahaniaeth y gallwch chi ei wneud i'ch sefydliad a'ch defnyddwyr gwasanaeth drwy ddechrau a datblygu Trawsnewid Digidol effeithiol ac arwain i gyfleu hynny.

- Ymchwiliad a chynnig prosiect i gefnogi Prosiect Mawr Terfynol.
- Prosiectau i'w datblygu mewn cydweithrediad â chyflogwyr.
 - Prosiect i gynnwys yn ei gyfarwydd y cynnig prosiect, cynllunio, asesiad risg ac ati

8

Prosiect Mawr Terfynol Trawsnewid Digidol

Prosiect Mawr Terfynol –Datblygu datrysiad/ymyriad digidol mewn ymateb i angen dynodedig o fewn eich sefydliad neu yn y sector iechyd a gofal. Wedi'i gyflwyno mewn cyd-destun academiaidd, yn cynnwys cynigion am ddatblygiadau yn y dyfodol.



Dull Cyfleu

Mae'r dysgu'n cael ei gyfleu'n digidol drwy amrywiaeth o ddulliau, yn cynnwys darlithoedd, seminarau, gweithdai, cyflwyniadau, dysgu ac astudio hunangyfeiriedig, gydag astudiaethau achos y byd go iawn yn sylfaen i'r holl ddysgu damcaniaethol. Bydd y dysgu'n cael cefnogaeth ychwanegol gan gyfres o ddarlithoedd gwadd, a gweithgareddau cyfoethogi megis podlediadau. Bydd cyfleoedd ar gyfer achlysuron wyneb yn wyneb drwy gydol y rhaglen.

Yn benodol ar gyfer y cwrs hwn, byddwch yn cyfranogi mewn setiau Dysgu Gweithredol bob 3 – 4 mis a bydd hyfforddwr gweithredol yn cael ei neilltuo i'ch helpu i ymgorffori eich dysgu yn y gweithle. Bydd y dysgu gweithredol yn rhoi heriau allweddol i chi er mwyn archwilio'r canlynol

- Ymchwilio ymarfer ar sail gwybodaeth
- Dysgwyr Gweithredol a Chydweithredol
- Effaith Strwythurol Cadarnhaol
- Rhwyddineb Digidol
- Dysgu sy'n seiliedig ar heriau

Yr Academi Dysgu Dwys

Mae ADD Arwain Trawsnewid Digidol PDC yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac yn cyd-fynd â polisi 'Cymru Iachach'. Mae'n gweld 'digidol' fel galluogydd allweddol o'r trawsnewid sydd ei angen ledled y system, ac ar yr un pryd yn sylweddoli'r heriau a ddaw o wthio newid digidol yn gyflym ac ar raddfa eang ledled y maes iechyd a gofal yng Nghymru.

Mae PDC yn ddatblygu galluogrwydd arweinyddiaeth sy'n coleddu dulliau gweithio digidol i arwain trawsnewid yn llwyddiannus. Mae'r academi'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd datblygiad proffesiynol a llwybrau ar gyfer datblygu arweinwyr a rheolwyr, yn cynnwys MSc mewn Sefydliadau Iechyd a Gofal, er mwyn gwella sgiliau a chynhwysedd y rhwydwaith newydd hwn o arweinwyr digidol.

Tîm y Cwrs



Bob Hudson – Cyd-gyfarwyddwr Gweithredol ADD

Mae Bob wedi bod yn awyddus i ysgogi trawsnewid yn GIG Cymru ers nifer o flynyddoedd. Wedi ymddeol o'i swyddogaeth fel Cyfarwyddwr Cydweithfa Iechyd GIG Cymru ym mis Ebrill 2018, Ymunodd Bob â Phrifysgol De Cymru yn 2020 fel Athro Gwadd yn y Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg. Ochr yn ochr â'i waith ar y ADD mae Bob hefyd yn cyd-arwain gwaith i'r Brifysgol ar y Rhaglen Cyflymydd Iechyd a Lles.

Ym mis Tachwedd 2020 cymerodd Bob rôl Cadeirydd Dros Dro i oruchwylio sefydlu asiantaeth genedlaethol newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal digidol yn GIG Cymru. Sefydlwyd Iechyd a

Gofal Digidol Cymru yn ffurfiol ym mis Ebrill 2021 ac ar ôl ei sefydlu arweiniodd Bob y Bwrdd drwy ei 6 mis cyntaf o weithredu.

Bu gan Bob 4 swydd Prif Swyddog Gweithredol o fewn GIG Cymru fel Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cymuned Gwent, Awdurdod Iechyd Gwent, Prif Swyddog Gweithredol sefydlu Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys. Bu'n gweithio yn y Llywodraeth fel Cyfarwyddwr Rhanbarthol GIG dros dde-ddwyrain Cymru ac fel Cyfarwyddwr Strategaeth i Adran Iechyd Llywodraeth Cymru.

Mae diddordebau Bob mewn iechyd cyhoeddus, gwasanaeth ac ail-greu systemau, rheoli a datblygu sefydliadol a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'n Gydymaith Sefydliad Rheolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IHSCM). Derbyniodd Bob OBE am wasanaethau i'r GIG yng Nghymru yn 2018.

Mark Jackson – Cyd-gyfarwyddwr Gweithredol ADD

Mark yw Cyfarwyddwr Dylunio a Digidol Prifysgol De Cymru. Mae'n dod ag angerdd am dechnoleg a gwelliant i'r ADD gyda'i arloesedd a'i weledigaeth.

Mae ganddo brofiad helaeth o fewn addysg greadigol, gan weithio ar bob lefel o'r sector addysg a chydweithio gyda chynghorau, awdurdodau lleol, ysgolion a phartneriaid diwydiant i ddatblygu cwricwlwm newydd sy'n ymateb i bwysigrwydd creadigrwydd a sgiliau digidol i fyfyrwyr.



Ers symud i Gymru yn 2009 mae Mark wedi ennill saith gwobr arloesi addysgu am ei waith yn archwilio integreiddio technoleg ddigidol mewn ymarfer addysgu, a'i brosiectau cydweithredol gyda phartneriaid rhyngwladol sy'n ymgorffori profiadau dysgu rhyngwladol yn y cwricwlwm er buddiant yr holl fyfyrwyr.

Mae wedi datblygu cyrsiau cydweithredol mewn dylunio gyda'n partneriaid yn yr Almaen; cyflwyno darlithoedd a dosbarthiadau meistr creadigol gyda phrifysgolion yn Tsieina a sefydlu sawl cydweithrediad rhyngwladol gyda phrifysgolion yn UDA. Mae Mark wedi cyfrannu at fentrau strategol gyda'r Academi Addysg Uwch a bu'n arholwr allanol ac yn adolygydd cwricwlwm ar gyfer prifysgolion a cholegau ledled y DU.

Yn 2019 datblygodd Mark Academi Diwydiannau Creadigol Cymru, sef cydweithrediad rhwng Prifysgol De Cymru, un ar ddeg o Golegau Addysg Bellach a phartneriaid diwydiant o'r sector Creadigol yng Nghymru i ddarparu cyfleoedd dysgu unigryw i gefnogi llwybrau gyrfa ar gyfer pobl ifanc greadigol dalentog. Ar hyn o bryd mae Mark hefyd yn Gyfarwyddwr dros dro Ysgol Busnes De Cymru. Mae'n Brif Gymrawd yr Academi Addysg Uwch, ac yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau.



Simon Read – Arweinydd y Cwrs

Treuliodd Simon 18 mlynedd yn gweithio gyda'r Llynges Frenhinol a bu'n helpu i ddatblygu a chyfleu mewn ysgol arweinyddiaeth genedlaethol ac academi ranbarthol ar gyfer datblygu a chryfhau pobl oedd â diddordeb a phenderfyniad mewn datblygu. Bu'n gweithio gyda thîm gwrthderfysgaeth Gemau'r Gymanwlad 2014 yn Yr Alban. Bu hefyd yn hyfforddwr cenedlaethol i weithrediadau Masnach Forol oedd yn cynnwys ymateb i herwgipio, yn ogystal ag ymateb i argyfwng, hyfforddi a chynllunio ar gyfer trychinebau.

Bu Simon yn darlithio ym Mhrifysgol De Cymru ers 20 mlynedd ym meysydd Rheoli Prosiectau, Y Gyfraith ac Argyfwng a rheoli ac ymateb i drychinebau. Bu'n rhan o Dîm Gynnau Maes y Lluedd Arfog sy'n cynnwys adeiladu, datgymalu, tanio, a rhedeg gyda chanon ar draw cwrs yn y modd mwyaf cyflym a chywir.

Mae'n mwynhau cerdded mynyddoedd, rhedeg a chodi pwysau. Ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda defnydd posibl realiti estynedig a thechnoleg Holograffig ar gyfer addysg ac ymarferion argyfwng. Mae hefyd yn ffotograffydd brwd o fyd natur a'r amgylchedd naturiol. Mae hefyd yn hoffi teithio a gweld adfeilion hynafol. Mae ei ymagwedd tuag at bobl yn seiliedig ar berthnasoedd cadarnhaol, cynhyrchiol, gan helpu a gwrthio cydweithio ymlaen.

Liam Collins

Fel dylunydd UX/UI, mae Liam yn mwynhau defnyddio dulliau ymchwil sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i ddeall a chael darlun o ddefnyddwyr a demograffeg ymhob project. Mae'n frwd iawn ynghylch meddylfryd creadigol, datrys problemau a chynllunio strategol drwy gyfathrebu dylunio.

Mae gan Liam ddiddordeb brwd mewn technolegau newydd a rhai sy'n datblygu a'r modd y gallant gael eu defnyddio i wella brandiau a chynnig profiadau arloesol i ddefnyddwyr.



Ben Wheeler



Mae Ben yn frwd iawn ynghylch y maes Digidol; Arloesi Digidol, Trawsnewid Digidol a Marchnata Digidol. O feddwl am ateb digidol arloesol i broblem fusnes, i drawsnewid y modd y mae busnes yn gweithredu, i gael yr apiau, gwefannau, a'r marchnata cywir ar waith.

Mae ei fywyd gwaith yn troi o amgylch digidol - ymgynghori, rhoi ar waith, dysgu, ac hefyd yn cyflawni doethuriaeth yn y maes digidol ar gyfer busnesau bach.

Mae ganddo gyfuniad unigryw o brofiad mewn Technoleg, Marchnata a Thwf Busnes sydd wedi datblygu ers 2000. Bydd y cyfuniad hwn o dechnoleg, marchnata a gwybodaeth fusnes yn eich helpu i wella eich profiad â chwsmeriaid.

Mae wedi defnyddio gwybodaeth a phrofiad y 18 mlynedd diwethaf mewn Technoleg i greu atebion trawsnewid digidol i fusnesau.

Sut i wneud cais

I wneud cais am y cwrs hwn, byddwch cystal â llanw'r ffurflen archebu ar y dudalen we a bydd un o dîm y cwrs yn cysylltu â chi.



**ARCHEBWCH
YMA:**



Cefnogir y Rhaglen hon gan



Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board



Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)



Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



Wales Institute of Digital Information
Athrofa Wybodaeth Ddigidol Cymru

Gwefan: www.southwales.ac.uk/business

Ebost uswcommercial@southwales.ac.uk

Twitter [@uswcommercial](https://twitter.com/uswcommercial)

Linkedin: **USW Commercial Services**



**Academiau Dysgu
Dwys Cymru**

Intensive Learning
Academies Wales

Bwrdd Partneriaeth
Ranbarthol Powys
Iechyd a Gofal
Cymdeithasol



Powys Regional
Partnership Board
Health and
Social Care

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru